LC396

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Rheoliadau Deunydd Risg Penodedig (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2001 (OS 2001/3546) (Cy.290))**

Diwygiwyd Rheoliadau Deunydd Risg Penodedig 1997 (OS 1997/2965) a Gorchymyn Deunydd Risg Penodedig 1997 (OS 1997/2964) mewn perthynas â Lloegr gan ddau offeryn statudol a ddaethant i rym ar 13 Awst 2001 – Rheoliadau Deunydd Risg Penodedig (Diwygio) (Lloegr) (Rhif 2) 2001 (OS 2001/2672) a Gorchymyn Deunydd Risg Penodedig (Diwygio) (Lloegr) 2001 (OS 2001/2650).

Gwnaethpwyd Rheolidau'n honni i wneud diwygiadau tebyg mewn perthynas â Chymru gan y Cynulliad, o dan y drefniadaeth weithredol, ar 26 Gorffennaf 2001 yn cynnwys dyddiad dod i rym o 13 Awst 2001 (Rheoliadau Deunydd Risg Penodedig (Diwygio) (Cymru) 2001 Rhif 2732 (Cy.231)). Fodd bynnag, nododd y Pwyllgor Deddfau bod y pwerau a enwyd o dan Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981 yn y Rheoliadau hyn yn bwerau i wneud Gorchmynion, yn hytrach na phwerau gwneud Rheoliadau. Felly, adroddodd y Pwyllgor i'r Cynulliad (adroddiad LC330) bod OS 2001/2732 (Cy.231) yn cynnwys diffygion drafftio o ganlyniad i'r ymgais i gynnwys diwygiadau i Orchymyn Deunydd Risg Penodedig 1997 nad oedd o fewn cwmpas y pwerau galluogi.

O ganlyniad, mae'r Rheoliadau diweddaraf a wnaethwpyd o dan y pwer i wneud rheoliadau yn adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972, yn cywiro'r diffygion a oeddent yn rhan gynhenid o Reoliadau Deunydd Risg Penodedig (Diwygio) (Cymru) 2001.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Gan eu bod wedi cael cyfle i edrych ar ddrafft cynnar o'r rheoliadau hyn, llwyddodd cynghorwyr cyfreithiol y Pwyllgor i nodi nifer o bwyntiau sydd wedi cael eu cywiro. Felly,

nid oes dim pwyntiau wedi'u nodi fel materion y mae angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt o dan RS 11.5.

**Sylwadau Cyffredinol**

Tra bod rheoliadau 2001 yn aneffeithiol yn eu hymgais i ddiwygio gorchymyn 1997, derbynnir fel dehongliad cywir fod y rheoliadau yn effeithiol i'r graddau eu bônt yn diwygio rheoliadau 1997. Felly, mae'r rheoliadau diweddaraf ond yn disodli'r diwygiadau yr honnwyd eu gwneud gan yr OS blaenorol i Orchymyn 1997.

Nodir y pwyntiau bychan canlynol

- Nid yw trefn y geiriau ym mhennawd rheoliad 1 yn adlewyrchu trefn y testun.
- Yn rheoliad 3(6) dylai "shall be" fod yn "is" er mwyn bod yn gyson â'r ffurf mwy gorchmynnol a ddefnyddiwyd yn holl ddarpariaethau eraill y rheoliadau.
- Rheoliad 3(8) – yn mewnosod paragraff (4) – tra bod yr OS a deipiwyd ac a gyflwynwyd i'r Pwyllgor yn gywir, nodir bod y geiriau "shall not be … this Order", yn yr OS a argraffwyd, wedi'u hymgorffori fel rhan o baragraff (b) a hynny'n anghywir.
- Mae Rheoliad 4(1) yn cyfeirio at "â pharagraffau canlynol y Rheoliad hwn" pan nad oes ond un paragraff yn dilyn.

**Mick Bates AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

15 Ionawr 2002